Guto Ffowc a Chynllwyn y Powdwr Gwn

Bedwar can mlynedd yn ôl, roedd brenin o'r enw Iago yn frenin Lloegr. Protestant oedd e. Dywedodd y Brenin Iago fod yn rhaid i'r Pabyddion beidio â dweud eu pader eu hunain yn eu heglwysi eu hunain. Os na fydden nhw'n gwneud hynny, byddai'n rhaid iddyn nhw dalu dirwy.

Roedd yr holl Babyddion yn ddig iawn gyda'r Brenin. Meddyliodd rhai ohonyn nhw am ffordd o gael gwared ohono. Robert Catesby oedd enw'r dyn a feddyliodd am y syniad.

Gofynnodd i'w ffrindiau ei helpu.

Roedd y Brenin a'i ddynion pwysicaf yn cyfarfod yn y Senedd yn Llundain. Syniad Robert Catesby oedd gosod ffrwydron yn y Senedd er mwyn cael gwared ar y Brenin. Roedd yn gobeithio y byddai'r Brenin newydd yn fwy caredig wrth y Pabyddion.

Yn gyntaf roedd angen rhywun oedd yn gallu trin powdwr gwn. Milwr oedd Guto Ffowc ac roedd e'n gwybod llawer am bowdwr gwn. Pabydd oedd e a chytunodd i'w helpu.

Aeth y cynllwynwyr ati i rentu tŷ gyda seler o dan y Senedd. Cawsant afael yn gyfrinachol ar gasgenni o bowdwr gwn a'u rhoi yn y seler.

Cafodd y cynllwynwyr wybod pryd byddai'r Brenin yn ymweld â'r Senedd nesaf. Y dyddiad oedd Tachwedd y 5ed. Y diwrnod hwnnw aeth Guto Ffowc i'r tŷ lle roedd y powdwr gwn wedi'i guddio i gynnau'r ffiws. Tra ei fod yn aros yn y seler, daeth y milwyr i'w arestio. Roedd rhywun wedi'i fradychu. Llwyddodd y milwyr i ddal pob un o'r cynllwynwyr. Cawsant eu crogi.

Roedd y Brenin Iago yn ofnus iawn ac roedd am wneud yn siwr na fyddai neb yn anghofio am ei ddihangfa lwcus. Dywedodd y dylai pawb gynnau coelcerth ar Dachwedd 5ed a dweud pader arbennig er mwyn iddyn nhw beidio ag anghofio am gynllwyn y powdwr gwn.

Rydym yn dal i gofio Guto Ffowc fel hyn. Bob blwyddyn rydym yn cynnau coelcerthi ac yn llosgi Guto ffug ac rydym yn cynnau tân gwyllt i'n hatgoffa o'r cynllwyn i ladd y Brenin Iago.

Ffrwydron yw tân gwyllt
GAIR I GALL

Mewn cydweithrediad â
Fight for Sight
child accident prevention trust
dti
Department of Trade and Industry